

EDWARD Thomas, y beirniad llenyddol, traethodwr, a'r awdur Saesneg sydd a deg ar hugain o lyfrau clasurol wrth ei enw. Y milwr deugain mlwydd oed namyn un a laddwyd gan y "dwrn dur" yn Arras ar Ddydd y Pasg 1917. Er colli'r traethodydd, fel bardd y bydd byw Edward Thomas, yn ôl ei gofiannydd diweddaraf yr Athro George Thomas, o Brifysgol Caerdydd.

Dengys y deunaw mil llythrau a gafodd gan ei weddw, Helen Thomas, fel yr oedd tyndra rhwng chwilio am hapusrwydd gyda'i wraig a'i deulu, a'i hiraeth am yr unigeddau i bererindota er ceisio dod o hyd iddo fo'i hunan, yn effeithio arno. Troediodd yr Athro faes anodd yn fanwl a thrwyadl, yn ei lyfr *Edward Thomas a Portrait*.

Cyn i'r teulu symud i Lundain, Athro yn Nhredgar oedd tad Edward Thomas, ac fe fanteisai'r plant ar unrhyw achlysur i gael dychwelyd i Bontardulais. Ac yno i'r Hendy, at ei gyfaill Gwili, y dychwelai Edward. Crwydrai'r ddau tros y Mynydd Du, nes cyrraedd y Dryslwyn.

Ac yng nghegin 'Gwili Cottage' y dotiodd at y canhwylbrennau pres, a'r fegin law. Carodd ddigon ar hen bethau i ofalu mai dyna'r patrwm yn ei gartref cyntaf yntau. Oedd, rhwng yr hyn a welodd ac a glywodd, yn ganu alawon Cymraeg, a'i ymwneud ag O. M. Edwards, yn Rhydychen, roedd Cymru yn lle arbennig iddo.

Ac fe deimlodd Gwili oddi wrth yr ergyd o'i golli mor gynnar. Hirdaith y galwai ef honno i'r Gelli Aur, ac i ddyffryn Tywi i weld Edward yn ymgolli



THOMAS PHILIP
TREHARNE THOMAS

IOAN MAI EVANS a gwreiddiau Cymreig EDWARD THOMAS

yn ei hanes llenyddol. Ond am y daith ddiddychwel y canodd i'w ffrind:

*Tonight,
the road is lonelier, too lonely
for one. I turn toward set of
sun, since thou
Hast journeyed west, dear
Edward Eastway.*


YN AGOS at Edward Thomas, o ran gwaedolieth roedd ei gyfyrdder Thomas Phillip Treharne Thomas, oedd yn dad i'm gwraig o Bontardulais.

Ef a arferai sôn wrthyf am ei athro Isaac Davies, yn yr ysgol bach yn y Bont yn ei annog i aros gartref pan ddeuai Edward Thomas ar ymweliad a'r ardal pan oedd yn y Coleg yn Rhydychen. Barnai'r sgwlyn gonest y dysgai fwy yn crwydro'r wlad hefo'i gyfyrdder nag a wnaï yn yr ysgol.

Ac er nad oedd ond dengmlwydd oed fel hyn y cofiai ef, yn dal, esgrynog, hefo'i sgrepan ar ei gefn. Cofio'r amrywiol bocedi i ddal nodwyddau, cdau, a phob rhyw

betheuch hwylus at drwsio dillad un oedd yn gerddwr mawr, ac yn grwydryn diflino.

Cofiaf atgofion fy nhad ynghyfraith am ei dad a'i fam, Sera a Philip Treharne Thomas, ac yn ôl portread yr Athro George Thoms, hefo nhw a'r teulu y ffurfiwyd . . . "the hard nucleus of Edward Thomas's adult love of Wales."



EDWARD THOMAS 1878-1917

Ymddengys fod y bardd yn teimlo'n gartrefol iawn ar eu haelwyd yn Ty'n y Bone. Doedd dim Saesneg gan Sera, a phrin oedd geirfa Gymraeg Edward Thomas, ac fe barai hyn gryn

ddiddanwch a hwyl iddo.

Fe ddisgwyliai Sera iddo fynd i'r parlwr ffyrnt i wneud ei waith coleg, ond ni thalai unman ond y bwrdd mawr yn y gegin, a thanillwyth o dân glo, a'r tlysau pres i foddio'i lygaid. Yno y byddai hithau, Sera, yn coginio a gwnio.

Gyda'r hwyr pan ddeuai'r teulu adref o'r lofa a'r gwaith Alcam, fe synhwyrai'r bardd beth oedd effaith diwydiannau newyddion a ddaeth yno yn lle hen ffordd fwy sefydlog o fyw.

Yn ôl yr Athro George Thomas, fe arweiniodd hyn yn ddiweddarach at ei bortreadau gorau o Gymru a Chymry yn "Rest and Unrest" a "Light and Twilight".

Rhwng yr argraffiadau cynnar hyn, dylanwad ei ffrind Gwili a'i athro hanes yn Rhydychen, O. M. Edwards, mae'n hawdd deall

... "Day by day grows my passion for Wales. It is like a homesickness, but stronger than any homesickness I ever felt

stronger than any passion. Wales indeed, is my soul's native land, if the soul can be said to have a patria or rather a patria, a home with the warm sweetness of a mother's love, and with her influence too."

TASGAU'R CYFIEITHWYR

GWELODD y bedwaredd ganrif ar bymtheg gyfieithu nifer sylweddol o lyfrau technegol ac arbenigol i'r Gymraeg. Ysyaeth, cyfran yn unig o'r cyfieithiadau hyn a gyhoeddwyd ac ymddengys fod nifer o'r rhai mwyaf diddorol bellach wedi diflannu'n llwyr - rhai megis cyfieithiad John Williams (Llanrwst) o Compendium Florae Britannica Smith, cyfieithiad John Evans o Agricultural Chemistry Johnstone a chyfieithiad Evan Meredith o Conversations on Optics Jane Marcet.

Ond llwyddwyd i gyhoeddi eraill ac y mae rhai ohonynt, megis y cyfieithiad o lyfr milfeddygol James Law Meddyg y Fferm . . . (1881), cyfieithiad Hugh Jones o lyfr William Buchan Y Meddyginiaeth Deuluaid (1831) a chyfieithiad Thomas Levi o Yr Anianydd Cristionogol Thomas Dick (1860) yn gryn gampweithiau.

Gorfu i Levi, cr enghraifft, ymgodymu â throsi i'r Gymraeg lyfr tra thechnegol a gynhwysai ryw chwarter miliwn o eiriau.

Rhaid derbyn mai llafur cariad oedd y rhan fwyaf o'r cyfieithiadau hyn - wedi'r cwbl, mae'n bur annhebyg fod cyflawni cyfieithiad technegol yn rhoi unrhyw wefr ddeallusol neu greadigol i'r cyfieithydd.

Ychydig o wybodaeth sydd gennym am agwedd y cyfieithwyr at eu tasg er bod R.E. Williams, cyfieithydd Hanes y Ddaer a'r Creaduriaid Byw Goldsmith yn

Gan R. ELWYN HUGHES

cyfaddef mai 'prin iawn yr ymgymerasai a chyfieithu yr Animated Nature pe gwybuasai dair blynedd i heddyw fod y fath waith caled o'i flaen', gan ychwanegu, 'Ysgrifenydwyd yr holl waith yn Birmingham mewn ychydig yn llai na thair blynedd o amser, a hyn yng nghanol trafferthion gweinidogaeth Gymreig mewn lle Seisnig. Pa beth bynag ydyw, dan yr amgylchiadau, ni allaswn ei wneud yn well.'

YCHYDIG flynyddoedd yn ôl, mewn siop nid anenwog ym mherfeddion Lloegr, prynais gopi personol John Rhys o Tours in Wales Thomas Pennant (1810) - tair cyfrol wael eu gwedd a rhai o'r tudalennau ar goll o'r gyfrol gyntaf. Ond yr hyn a roddai werth arbennig ar y cyfrolau hyn (yn fy ngolwg i, fodd bynnag) oedd bod Rhys wedi'u defnyddio wrth baratoi ei gyfieithiad Gymraeg Teithiau yng Nghymru (Humphreys, Caernarfon, ?1883).

Cynhwysai'r cyfrolau nid yn unig gywiriadau a sylwadau Rhys ar waith Pennant ond hefyd, bob hyn a hyn, ddyddiadau penodol wedi'u hysgrifennu mewn pensil ar ymyl y ddalen. Teg derbyn fod y rhain yn dynodi cynnydd Rhys wrth gyfieithu'r gwaith ac y mae modd felly lunio graff yn seiliedig arnynt.

Y peth mwyaf trawiadol a amlygir gan y graff yw cysondeb ymroad Rhys i'r cyfieithu - prin y gellid bod wedi chynhyrchu llinell fwy syth pe buasid wedi mynd ati'n fwiadol. Mae allodod y graff yn awgrymu fod Rhys wedi dechrau cyfieithu tua 26ain Hydref 1883 a gorffen tua dechrau Mehefin.

Cynhwysai'r tair cyfrol ryw 240,000 o eiriau ac yr oedd cyfradd gyfieithu Rhys felly'n rhyw 1446 o eiriau bob dydd.

* * * * *

YN DDIDDOROL iawn, rhywbeth cyffelyb oedd cyfradd R.E. Williams wrth baratoi ei fersiwn Cymraeg o lyfrau Goldsmith - homer o gyfieithiad gan fod y ddwy gyfrol yn cynnwys rhyw filiwn a chwarter o eiriau.

Gan fod Williams wedi cymryd bron dair blynedd i gwblhau ei gyfieithu gellid cynnig amcangyfrif o 1377 o eiriau bob dydd. ('Rwyn tybio na fyddai na Williams na Rhys yn cyfieithu ar y Suliau - tybiact led ddiogel yn achos Williams ond ni ellir bod mor sier am Rys).

Cyfieithwyr rhan-amser oedd Rhys a Williams - Rhys yn Athro Celtig yn Rhydychen ac yn dal swyddi yn ei goleg a Williams yn weinidog ymneilltuol ym Birmingham. Ni ellir ond edmygu'r campweithiau cyfieithiadol hyn o gofio natur y cyfnod a esgorodd arnynt - cyfnod cyn bod sôn am gynorthwyon megis prosesyddion geiriau a rhestrau termau technegol.